YR ATODLEN

**Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau**

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion rheoli interim a therfynol*

**29.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 130(9) o Ddeddf 2004 (cais i benderfynu pwy yw "y landlord perthnasol" ("*the relevant landlord*") at ddibenion adran 130 pan ddaw'r gorchymyn rheoli i ben).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r landlord perthnasol arall(**1**).

(**1**) *Gweler* adran 130(11) o Ddeddf 2004 am y diffiniad o "relevant landlord".